Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 3

(1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2040)

## Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Drafft

Ymgynghoriad Drafft: Ionawr 2026

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 3**

1.1 Trosolwg ..... 3

1.2 Cefndir ..... 3

1.3 Diben y papur hwn ..... 4

1.4 Cynlluniau, Strategaethau a Sylfaen Dystiolaeth Berthnasol ..... 5

1.5 Profion Cadernid ..... 5

**2. Beth yw'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro? ..... 7**

**3. Y Weledigaeth Ddrafft ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2040 ..... 28**

3.2 Cysondeb â Chynlluniau eraill ..... 28

3.3 Y Weledigaeth Ddrafft ..... 30

**4. Amcanion Drafft Cynllun Datblygu Lleol 3 ..... 31**

Tabl 2: Amcanion Drafft ..... 32

**Atodiadau ..... 36**

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Trosolwg

1.1.1 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi dechrau gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol 3 (CDLl3) ar gyfer y Parc Cenedlaethol sy'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2040. Bydd Cynllun Datblygu Lleol 3 yn disodli'r Cynllun mabwysiedig presennol (CDLl2, a fabwysiadwyd ym mis Medi 2020).

1.1.2 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn chwarae rhan allweddol wrth osod y weledigaeth hirdymor ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan ddyrannu tir ar gyfer datblygu cynaliadwy a darparu'r fframwaith polisi y penderfynir ar geisiadau cynllunio ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol yn ei erbyn.

1.1.3 Bydd Cynllun Datblygu Lleol 3 yn cael ei baratoi yn unol â Chytundeb Cyflawni cymeradwy'r Awdurdod. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi CDLl3 a'r dull y mae'r Awdurdod yn bwriadu ei gymryd o ran ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid a chymunedau wrth baratoi CDLl3.

## 1.2 Cefndir

1.2.1 Dechreuodd adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol 2 (CDLl2) mabwysiedig ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ym mis Medi 2024, ac yn dilyn ymgynghoriad, cyhoeddwyd yr Adroddiad Adolygu ym mis Mawrth 2025. Ystyriodd yr adroddiad y newidiadau cyd-destunol allweddol ers mabwysiadu CDLl2 ym mis Medi 2020, ochr yn ochr â chanfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol diweddaraf, ac ymgymerodd ag adolygiad llawn o weledigaeth, amcanion, strategaeth, dyraniadau a pholisïau'r Cynllun i asesu pa mor dda mae'r Cynllun yn perfformio.

1.2.2 Daeth yr Adroddiad Adolygu i'r casgliad fod y Cynllun hwnnw'n perfformio ac yn cyflawni'n dda, fodd bynnag, bu nifer o newidiadau cyd-destunol allweddol a newidiadau i bolisi a deddfwriaeth genedlaethol ers mabwysiadu'r Cynllun sy'n gofyn am adolygiad llawn o'r CDLl. Y papur hwn yw'r cam cyntaf wrth baratoi'r CDLl newydd.

## 1.3 **Diben y papur hwn**

1.3.1 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020) yn nodi'r gofyniad i nodi'r materion, yr heriau a'r sbardunau allweddol (agweddau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol), gan gynnwys gofynion strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Rhaid gwerthuso'r materion allweddol ar gyfer y cynllun mabwysiedig i benderfynu a ydynt yn dal i fod yn berthnasol, i ba raddau, ac a oes materion newydd wedi codi. Rhaid i'r cynllun nodi gweledigaeth sy'n unigryw i amgylchiadau lleol, gydag amcanion cyffredinol sy'n ymateb i'r materion allweddol.

1.3.2 Mae'r papur hwn yn nodi'r materion a'r heriau allweddol ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ynghyd â'r cyfleoedd i fynd i'r afael â'r materion hyn drwy CDLl3. Mae'r materion wedi'u llywio gan ystod eang o dystiolaeth a nodir yn y papur hwn ac mae newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth genedlaethol hefyd wedi'u hystyried.

1.3.3 Nodir y Weledigaeth a'r Amcanion a fydd yn llywio ac yn cyfeirio'r Cynllun ar ôl nodi'r materion allweddol. Mae'r Weledigaeth yn nodi diben craidd, cyffredinol CDLl3 ac yn nodi sut mae disgwyl i leoedd o fewn y Parc Cenedlaethol ddatblygu, newid a chael eu diogelu dros gyfnod y Cynllun. Mae'r Weledigaeth yn darparu'r fframwaith ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir ac ar gyfer llunio'r polisïau a'r cynigion manwl ar gyfer CDLl3.

1.3.4 Er mwyn sicrhau y cyflawnir y weledigaeth, mae set o 16 o amcanion drafft wedi'u datblygu a byddant yn darparu'r sail ar gyfer llunio polisïau a chynigion manwl i fynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd a'r materion lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach y mae'r Parc Cenedlaethol yn eu hwynebu a sut y caiff y rhain eu cyflawni drwy swyddogaeth cynllunio defnydd tir yr Awdurdod.

1.3.5 Mae'r materion a'r amcanion wedi'u grwpio o dan bedair Blaenoriaeth Gorfforaethol y Parc Cenedlaethol: Cadwraeth; Cysylltiad a Threftadaeth Ddiwylliannol; Cymunedau; a'r Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol. Mae'r themâu hyn yn sicrhau aliniad CDLl3 â'r Cynllun Corfforaethol a Chynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol a fabwysiadwyd yn ddiweddar ym mis Mawrth 2025.

1.3.6 Mae'r amcanion hefyd yn ystyried y saith nod llesiant i Gymru, a sefydlwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac amcanion yng Nghynllun Llesiant Sir Benfro.

1.3.7 Mae'r Materion a'r Amcanion Cynaliadwyedd hefyd wedi'u nodi ac maent wedi'u cynnwys yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd (sy'n ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol) ar gyfer CDLl3.

1.3.8 Diben y papur hwn yw bod yn fan cychwyn ar gyfer ymgysylltu a rhoi cyfleoedd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid wneud sylwadau ynghylch a ydym ni (yr Awdurdod Parc Cenedlaethol) wedi nodi'r materion pwysicaf ac a yw'r weledigaeth a'r amcanion yn taro tant â thrigolion, gweithwyr ac ymwelwyr y Parc Cenedlaethol.

## 1.4 **Cynlluniau, Strategaethau a Sylfaen Dystiolaeth Berthnasol**

1.4.1 Mae'r papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion hwn wedi'i lywio gan nifer o gynlluniau, polisïau a rhaglenni allweddol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, ac mae pob un wedi'i nodi a'i adolygu yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd: Atodiad A – Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod y weledigaeth a'r amcanion drafft wedi'u llunio yn unol â'r dogfennau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Gynllun Llesiant Sir Benfro, Cynllun Partneriaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) 2025-2029, Cynllun Corfforaethol APCAP, Adroddiad Adolygu CDLl2, Adroddiadau Monitro Blynyddol CDLl2 (2021-2025) ac Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig CDLl3.

## 1.5 **Profion Cadernid**

1.5.1 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020) yn nodi'r profion cadernid y mae'n rhaid eu bodloni ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol. Ar gyfer y Papur Cefndir Materion, Gweledigaeth ac Amcanion hwn, ystyrir bod yn rhaid bodloni'r elfennau canlynol o'r profion cadernid:

**Prawf 1: A yw'r cynllun yn ffitio?** (h.y. a yw'n amlwg bod y CDLl yn gyson â chynlluniau eraill?)

O ran y Materion, Gweledigaeth ac Amcanion, rhaid i'r CDLl gydymffurfio â Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae angen rhoi sylw hefyd i bolisi cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru), cynlluniau a strategaethau rhanbarthol, gan gynnwys Cynllun Llesiant Sir Benfro a Chynllun Partneriaeth (Rheoli) y Parc Cenedlaethol.

**Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol?** (h.y. a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)

O ran y Materion, Gweledigaeth ac Amcanion, mae angen i'r cynllun fod yn benodol o safbwynt lleol, mynd i'r afael â'r materion allweddol, a chael ei gefnogi gan

dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy, a dylai'r weledigaeth fod yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol.

**Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni?** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Bydd angen i'r papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion nodi canlyniadau, yn seiliedig ar y materion a'r weledigaeth, sy'n effeithiol, yn weithredadwy ac yn gyflawnadwy drwy'r broses cynllunio defnydd tir. Dylai amcanion fod yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol).

# 2. Beth yw'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro?

2.1 Mae'r materion a nodir yn yr adran ganlynol wedi'u grwpio o dan bedair Blaenoriaeth Gorfforaethol y Parc Cenedlaethol: Cadwraeth; Cysylltiad a Threftadaeth Ddiwylliannol; Cymunedau; a'r Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol. Mae'r materion yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a manwl sydd wedi ystyried yr heriau lles amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y mae'r Parc Cenedlaethol yn eu hwynebu ac y mae CDLl3 yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Darperir y dystiolaeth fanwl hon a'r ystadegau yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd: Atodiad B – Llinell Sylfaen. Mae'r pedair Blaenoriaeth Gorfforaethol wedi ymgorffori'r saith nod llesiant cenedlaethol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac felly'n sicrhau bod y Cynllun yn ystyried y rhain o'r cychwyn cyntaf ac yn gallu dangos sut y bydd yn cyfrannu at gyflawni'r nodau (gweler Atodiad 2).

2.2 Mae'r sylfaen dystiolaeth a'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd i helpu i nodi'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd wedi'u rhestru wrth ymyl pob mater yn y tablau canlynol. Mae Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd ar gyfer CDLl3 hefyd yn adolygu'r cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni priodol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, ac mae'n cynnwys y canlynol:

2.2.1 **Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040:** Ym mis Chwefror 2021 cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol, sydd â statws cynllun datblygu, gan Lywodraeth Cymru. Disodlodd Gynllun Gofodol Cymru ac mae'n nodi cyfeiriad strategol 20 mlynedd o hyd ar gyfer datblygu yng Nghymru. Mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio trwy ddatblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a gwydnwch hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd cymunedol. Mae'r cynllun yn llywio buddsoddiadau seilwaith a datblygu ac ychwanegir manylion pellach gan Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) rhanbarthol y mae'n ofynnol iddynt fod yn gyson â Cymru'r Dyfodol.

2.2.3 Mae Cymru'r Dyfodol yn cynnwys strategaeth ofodol genedlaethol ac yn cyflwyno pedwar rhanbarth yng Nghymru: Y Gogledd, Canolbarth Cymru, Y De-orllewin a'r De-ddwyrain. Mae'r cynllun yn nodi 'ble y bydd Cymru'n tyfu' (Polisi 1) drwy nodi ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol. Ar gyfer pob un o'r rhanbarthau mae'r cynllun yn nodi lleoliadau allweddol ar gyfer twf, cyfleoedd ar gyfer seilwaith datblygu ac yn gosod fframwaith ar gyfer cynllunio rhanbarthol a lleol. Noda Cymru'r Dyfodol: 'Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn endidau cynllunio unigryw sydd â chylch gwaith penodol i adlewyrchu nodweddion unigryw eu hardaloedd... a bod

polisïau Cymru'r Dyfodol yn parchu swyddogaethau Parciau Cenedlaethol o ran eu dibenion statudol...' (tudalen 104).

2.2.4 Rhaid i'r CDLl gydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol drwy sicrhau bod y strategaeth, y cynigion a'r polisïau'n cydymffurfio â'r strategaeth ofodol ar gyfer rhanbarth y De-orllewin ac yn cefnogi ardaloedd twf rhanbarthol Trefi Porthladd Sir Benfro, nid yn cystadlu gyda nhw. Rhaid i'r CDLl alinio â'r polisïau drwy gefnogi gweithredu ar newid hinsawdd a'r symudiad i sero net, cymhwyso'r egwyddorion creu lleoedd, cefnogi'r dull o roi canol trefi yn gyntaf, diogelu tirweddau a bioamrywiaeth a sicrhau bod tai a gwasanaethau yn cael eu hintegreiddio â buddsoddiad mewn seilwaith.

2.2.5 Mae adolygiad o'r amcanion drafft yn erbyn Canlyniadau Cymru'r Dyfodol 2040 i'w weld yn Atodiad 3.

2.2.6 **Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12, Chwefror 2024):** Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) wedi'i ddiweddaru ddwywaith ers mabwysiadu CDLl 2 yn 2020. Gwnaeth Argraffiad 11 (2021) alinio PCC â 'Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040' a phwysleisio lleoedd cynaliadwy sydd wedi'u hintegreiddio'n dda. Cyflwynodd Argraffiad 12 (2024) ofynion i awdurdodau cynllunio ystyried materion lleol fel nifer yr ail gartrefi a gosodiadau byrdymor, anghenion seilwaith gwyrdd manwl, a buddion bioamrywiaeth net gorfodol, gan gynnwys sicrhau'r buddion hyn trwy ddull gweithredu cam-wrth-gam. Yn ogystal, mae'n darparu dull polisi cryfach o ddiogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a chanllawiau ar goed a choetiroedd, gan gynnwys annog plannu newydd. Bydd angen adlewyrchu'r diweddariadau hyn yn y Cynlluniau Datblygu Lleol newydd.

2.2.7 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi cynllun defnydd tir Llywodraeth Cymru. Prif amcan PCC yw sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae PCC yn ei gwneud yn ofynnol i'r system gynllunio gofleidio'r cysyniad o greu lleoedd er mwyn creu lleoedd cynaliadwy a gwella lles cymunedau. Mae PCC yn nodi'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy sy'n set o amcanion allweddol o dan y pum thema ganlynol; Creu a Chynnal Cymunedau; tyfu ein heconomi mewn Ffordd Gynaliadwy; Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau; Diogelu'r Amgylchedd Hyd yr Eithaf a Chyfyngu ar Effaith Amgylcheddol, a Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach. Mae PCC wedi'i drefnu o amgylch pedair thema gyffredinol:

- Dewisiadau Strategol a Gofodol i sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol a hyrwyddo dylunio da a chreu lleoedd sy'n gwarchod yr iaith Gymraeg.
- Lleoedd Gweithredol a Chymdeithasol i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch, hyrwyddo teithio llesol, cael canolfannau manwerthu bywiog, diogelu cyfleusterau cymunedol ac annog dylunio cynhwysol.

- Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus i gefnogi datblygiad economaidd gan gynnwys twristiaeth a'r economi wledig a defnydd tir effeithiol.
- Lleoedd Unigryw a Naturiol i ddiogelu a gwella'r dirwedd, yr amgylchedd hanesyddol ac adeiledig, cyflawni seilwaith gwyrdd a chyflawni budd net i fioamrywiaeth.

2.2.8 Rhaid i'r CDLl alinio â'r polisïau a'r egwyddorion yn PCC yn sylfaen dystiolaeth, strategaeth ofodol, dyraniadau safle, polisïau a fframwaith monitro'r cynllun.

2.2.9 Mae adolygiad o'r amcanion drafft yn erbyn y Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy i'w weld yn Atodiad 4.

2.2.10 **Cynllun Llesiant Sir Benfro:** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gynhyrchu Cynllun Llesiant sy'n manylu ar sut y byddant yn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu priod ardaloedd.

2.2.11 Mae Cynllun Llesiant Sir Benfro yn nodi pedwar amcan i weithredu fel y fframwaith a ddefnyddir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i flaenoriaethu meysydd ffocws allweddol yn y cynllun. Y pedwar amcan yw:

- Cefnogi twf, swyddi a ffyniant a galluogi'r trawsnewidiad i economi fwy cynaliadwy a gwyrdd.
- Gweithio gyda'n cymunedau i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant.
- Hyrwyddo a chefnogi mentrau i gyflawni datgarboneiddio, rheoli camau addasu i'r hinsawdd a mynd i'r afael â'r argyfwng natur.
- Galluogi cymunedau diogel, cysylltiedig, dyfeisgar ac amrywiol.

2.2.12 Dylai'r CDLl sicrhau bod ei strategaeth a'i bolisïau’n cyfrannu at y nodau llesiant a'r amcanion a'r camau gweithredu a nodir yng Nghynllun Llesiant Sir Benfro o gryfhau cymunedau dwyieithog i gefnogi swyddi, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hefyd fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

2.2.13 Mae adolygiad o'r amcanion drafft yn erbyn Amcanion Cynllun Llesiant Sir Benfro i'w weld yn Atodiad 5.

2.2.14 **Datganiadau Ardal De-orllewin Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru):** Mae'r datganiadau’n cwmpasu ardaloedd Awdurdodau Lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Maent yn nodi'r risgiau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer adeiladu gwydnwch ecosystemau a chefnogi rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol o dan bedwar maes ffocws:

- Lleihau anghydraddoldebau iechyd.
- Sicrhau y rheolir tir yn gynaliadwy.
- Gwrthdroi dirywiad a gwella bioamrywiaeth.
- Lliniaru ac addasu i newid hinsawdd.

2.2.15 Mae'n ofynnol i'r CDLl ymgorffori rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol trwy gydol y gwaith o baratoi'r cynllun a chyfrannu at wydnwch ecosystemau, lliniaru ac addasu i'r hinsawdd, bioamrywiaeth ac annog mynediad i seilwaith gwyrdd i sicrhau lles cymdeithasol ac economaidd gan gynnwys manteision ar gyfer iechyd a lleihau anghydraddoldebau.

2.2.16 Mae adolygiad o'r amcanion drafft yn erbyn Datganiad Ardal De-orllewin Cymru CNC i'w weld yn Atodiad 6.

2.2.17 **Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2025-2029:** Mae'r Cynllun Partneriaeth yn darparu fframwaith strategol i lywio ymdrechion cydweithredol partneriaid a rhanddeiliaid allweddol wrth warchod, gwella a rheoli'r Parc Cenedlaethol yn gynaliadwy dros y pum mlynedd y mae'r cynllun yn eu cwmpasu. Nod y cynllun yw cydlynu gwaith rhanddeiliaid amrywiol gan gynnwys cyrff cyhoeddus, cymunedau ac unigolion, a chyflawni dibenion statudol y Parc Cenedlaethol: cadwraeth, mwynhad y cyhoedd, a dealltwriaeth.

Mae'r cynllun wedi'i strwythuro o amgylch pedair thema graidd:

- **Cadwraeth**
    - Gwarchod a gwella tirweddau, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol y Parc.
    - Mynd i'r afael â bygythiadau fel colli cynefinoedd, llygredd, a rhywogaethau goresgynnol.
- **Cysylltiad**
    - Meithrin ymgysylltiad cyhoeddus dyfnach â natur a threftadaeth.
    - Gwella mynediad a chynhwysiant, gan sicrhau y gall pob cymuned fwynhau ac elwa o'r Parc.
- **Cymunedau**
    - Cryfhau cymunedau lleol trwy ddatblygu cynaliadwy.
    - Cefnogi lles, cyfleoedd economaidd, a hunaniaeth ddiwylliannol.
    - Annog cyfranogiad gweithredol mewn penderfyniadau a stiwardiaeth.
- **Yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol**
    - Cefnogi gwydnwch ac addasu i’r hinsawdd.
    - Hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy o adnoddau tir a morol.
    - Annog arferion carbon isel ac atebion sy'n seiliedig ar natur.

2.2.18 Mae'n bwysig nodi bod Adroddiadau Monitro Blynyddol CDLl2 wedi asesu i ba raddau y mae'r strategaeth a'r polisïau yn cael eu cyflawni trwy fesur dangosyddion amrywiol i asesu perfformiad polisïau cynllunio unigol fel y nodir yn y CDLl2 mabwysiedig, gan gynnig portread cyffredinol o'r amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhain, ynghyd â'r Adroddiad Adolygu, yn dod i'r casgliad bod polisïau a chynigion y Cynllun yn cael eu gweithredu, ac yn perfformio, yn ôl y bwriad. Bydd llawer o'r materion a nodwyd yn CDLl2 yn dal i fod yn berthnasol i CDLl3 ond bydd angen eu hystyried o fewn newidiadau cyd-destunol a newidiadau i bolisi a deddfwriaeth genedlaethol.

# Tabl 1: Materion Drafft

**CADWRAETH:** Gwarchod a gwella tirweddau, morluniau, harddwch naturiol a bywyd gwyllt

| Rhif | Mater Allweddol a Sylwebaeth | Cyd-destun / Ffynonellau | Sut gall CDLI3 ddylanwadu ar y mater hwn? |
|---|---|---|---|
| 1 | **Gwarchod Tirweddau a Morluniau a Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol:**<br><br>Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn dirwedd ddynodedig gyda rhinweddau arbennig cydnabyddedig sydd wrth wraidd dibenion y Parc Cenedlaethol fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd 1995. Bydd angen cydbwyso pwysau datblygu yn erbyn gwarchod a gwella rhinweddau arbennig sy'n dod â manteision ehangach i iechyd a lles pobl ac o ran cynnal cymunedau a'r economi.<br><br>Gall datblygiad y tu allan i'r Parc Cenedlaethol gael effaith ar y rhinweddau arbennig. | • Cynllun Partneriaeth APCAP<br>• Porthladd Rhydd Celtaidd<br>• Strategaeth Ynni Ranbarthol De-orllewin Cymru (CBC DOC) 2022<br>• Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) Sir Benfro 2022<br>• Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) 2019 | • Polisi strategol i warchod a gwella rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol (Egwyddor Sandford).<br>• Polisïau tirwedd a morlun penodol.<br>• Cyfeirio datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy o fewn y Parc Cenedlaethol, yn unol â'r Hierarchaeth Aneddiadau.<br>• Polisïau penodol i fynd i'r afael â'r angen am dai, ynni adnewyddadwy (gan gynnwys seilwaith ar y môr), datblygu'r Porthladd Rhydd Celtaidd, newid arfordirol, arferion amaethyddol newidiol, a phwysau twristiaeth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | **Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a chysylltedd cynefinoedd:**<br><br>Mae'r Parc Cenedlaethol yn enwog am ei amgylchedd naturiol rhagorol ac mae ganddo rwydwaith helaeth o safleoedd o bwys rhyngwladol, cenedlaethol a lleol sydd ag amrywiaeth gyfoethog o rywogaethau a chynefinoedd. Mae rhai o'r safleoedd hyn mewn 'cyflwr anffafriol' ac maent yn cael eu heffeithio gan ddatblygiad, dwysáu amaethyddol, hamdden a newid hinsawdd. Mae angen adfer a chysylltu cynefinoedd fel bod o leiaf 30% o'r Parc Cenedlaethol wedi'i ddynodi ar gyfer natur erbyn 2030. Bydd hyn yn ymateb i'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur yn ogystal â darparu manteision cymdeithasol, economaidd ac iechyd a lles ehangach. | • Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 12<br>• Plymio Dwfn Bioamrywiaeth<br>• Datganiad Ardal De-orllewin Cymru - CNC<br>• Mapiau Rhwydwaith Natur – CNC<br>• Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (AGAN) ar gyfer Cymru 2020<br>• Partneriaeth Natur Sir Benfro<br>• Cynllun Llesiant Sir Benfro<br>• Cynllun Gweithredu Adfer Natur Sir Benfro (2018)<br>• Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth Sir Benfro | • Sicrhau bod datblygiad yn osgoi niwed i ardaloedd gwarchodedig gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), gan gynnwys rhai Morol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) a Choetiroedd Hynafol.<br>• Sicrhau bod datblygiad newydd yn cyflawni budd net i fioamrywiaeth gan gynnwys lle ar gyfer coridorau gwyrdd, SDCau, plannu coed, neu glustogfeydd cynefinoedd.<br>• Defnyddio allbynnau Seilwaith Gwyrdd (SG) i helpu i ddiogelu a rheoli o leiaf 30% o'r tir er budd natur erbyn 2030, yn unol â PCC12 ac ymrwymiadau bioamrywiaeth cenedlaethol.<br>• Croestorri darpariaeth SG gyda chamau addasu i newid hinsawdd (risg llifogydd, cysgod, oeri), iechyd a lles (mannau gwyrdd hygyrch), a theithio llesol (llwybrau cerdded/beicio diogel, gwyrdd).<br>• Polisi i warchod a gwella safleoedd dynodedig lleol. |
| 3 | **Gwarchod a gwella awyr dywyll:**<br><br>Er bod rhannau o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn dal i fod yn gymharol dywyll, heb lawer o effaith ar awyr y nos, mae llygredd golau a achosir gan oleuo amhriodol a/neu ddiangen yn broblem gynyddol i ardaloedd eraill, gan gynnwys yr aneddiadau mwy o faint ac yn sgil | • Canllawiau Arfer Da Cynllunio ar gyfer Cadwraeth a Gwella Awyr Dywyll yng Nghymru<br>• Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 12<br>• Mapio Awyr Dywyll a Llygredd Golau CNC/LUC | • Datblygu fframwaith polisi i warchod a gwella ardaloedd tywyllaf y Parc Cenedlaethol trwy reoli golau allanol a lleihau gollyngiadau golau ar ddatblygiadau newydd.<br>• Nodi'r ardaloedd lle gellir gwella goleuo gwael trwy ôl-ffitio.<br>• Polisïau penodol i fynd i'r afael ag effeithiau goleuadau ar rywogaethau a chynefinoedd bywyd gwyllt, gan groestorri â chyflenwi SG.<br>• Croestorri gyda newid hinsawdd ac addasu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | amaethyddiaeth. Mae goleuo gwael yn cael effaith ar iechyd a lles pobl, rhywogaethau bywyd gwyllt a chynefinoedd ac yn cynyddu allyriadau carbon, a bydd gwelliannau'n ymateb i'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur yn ogystal â chynnig cyfleoedd ar gyfer gwella iechyd a lles. | • Cynllun Partneriaeth APCAP 2025-2029 | |
| 4 | **Gwarchod a gwella seinweddau a llonyddwch:**<br><br>Mae Seinweddau a Llonyddwch wedi'u nodi fel un o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol ac mae'n ymwneud â'r synau sy'n gysylltiedig â thirweddau penodol. Gallai gweithgarwch diwydiannol cynyddol mewn perthynas â'r porthladd rhydd Celtaidd, gosodiadau ynni adnewyddadwy a seilwaith cyfathrebu, ynghyd â gweithgarwch milwrol presennol a chynnydd mewn sŵn traffig o ganlyniad i berchnogaeth ceir uwch, gael effeithiau andwyol ar y rhinwedd arbennig hon. | • Cynllun Partneriaeth APCAP 2025-2029<br>• Map Llonyddwch CNC.<br>• Cynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru 2023-2028 Llywodraeth Cymru | • Sicrhau bod datblygiad newydd yn cael ei gyfeirio i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy i leihau'r effaith ar seinweddau a llonyddwch.<br>• Datblygu fframwaith polisi i warchod a gwella'r lleoliadau hynny a gydnabyddir fel y tawelaf yn y Parc Cenedlaethol, gan groestorri â'r polisi strategol cyffredinol. |

**CYSYLLTIAD A THREFTADAETH DDIWYLLIANNOL:** Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol a’r iaith Gymraeg a gwella mynediad cyfartal i'r Parc Cenedlaethol

| Rhif | Mater Allweddol a Sylwebaeth | Cyd-destun / Ffynonellau | Sut gall CDLl3 ddylanwadu ar y mater hwn? |
|---|---|---|---|
| **Llesiant** | | | |
| 5 | **Hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol:**<br><br>Er bod iechyd cyffredinol y boblogaeth yn debyg i Gymru yn ei chyfanrwydd, bydd y boblogaeth sy'n heneiddio’n cyflwyno heriau’n ymwneud ag iechyd corfforol a meddyliol. Mae hyn yn debygol o roi pwysau ar wasanaethau a chyfleusterau iechyd yn ogystal â chyflwyno heriau o ran cael mynediad at wasanaethau o'r fath. Gallai mynediad gwael i drafnidiaeth gyhoeddus gyfyngu ar gyfleoedd i unigolion gael mynediad i'r Parc Cenedlaethol er eu hiechyd a’u lles. | • Cynllun Llesiant Sir Benfro<br>• Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2021)<br>• Pwysau Iach Cymru Iach | • Sicrhau bod tai, cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau yn cael eu darparu mewn lleoliadau sy'n hygyrch drwy ddulliau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Sicrhau lleoedd o ansawdd, wedi'u cynllunio'n dda, sy'n cynnwys tai sy'n fforddiadwy, yn hygyrch ac yn briodol ar gyfer anghenion lleol.<br>• Rhoi cyfleoedd i gael mynediad at chwarae, hamdden a mannau agored.<br>• Cefnogi'r ddarpariaeth o seilwaith gwyrdd a glas. |
| 6 | **Darparu trafnidiaeth gynaliadwy a mynediad at wasanaethau:**<br><br>Mae'r Parc Cenedlaethol yn ardal wledig yn bennaf gyda phoblogaeth wasgaredig sy'n heneiddio sy'n dibynnu ar y car preifat. Mae traffig ymwelwyr sylweddol yn yr haf sy'n rhoi straen ar y dirwedd ddynodedig. Mae’r opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus i drigolion ac ymwelwyr yn gyfyngedig ac annibynadwy (bysiau anaml a | • Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040<br>• Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 12<br>• Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021) | • Cyfeirio datblygiad i’r lleoliadau mwyaf cynaliadwy gyda mynediad at wasanaethau a chyfleusterau trwy ddulliau teithio cynaliadwy<br>• Hyrwyddo'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy (gweler Polisi Cynllunio Cymru) i roi blaenoriaeth i fodloni'r galw am deithio trwy: teithio llesol trwy gerdded a beicio ar draws trefi a phentrefi; cynyddu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a chefnogi seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn mewn lleoliadau priodol. Bydd y mesurau hyn hefyd yn cefnogi iechyd corfforol a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | threnau araf) sy'n rhwystro rhai rhag cael mynediad i'r Parc a gwasanaethau lleol. | • Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027<br>• Canllawiau Teithio Llesol (2021)<br>• Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru 2025-2030<br>• Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach (2020)<br>• Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru (2022) | meddyliol, yn lleihau anghydraddoldebau ac yn cyfrannu at sero net trwy ddatgarboneiddio teithio.<br>• Diogelu cyfleusterau cymunedol i sicrhau mynediad cyfartal. |
| **Y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth** | | | |
| 7 | **Gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg, tafodieithoedd lleol a diwylliant:**<br><br>Mae'r Gymraeg a thafodieithoedd Sir Benfro wedi'u nodi fel un o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol, ond mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol wedi gostwng ychydig ers cyfrifiad 2011. Er bod y defnydd o'r Gymraeg yn dibynnu ar nifer o ffactorau y tu allan i gylch gwaith y system gynllunio, mae angen hyrwyddo a gwella cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y Parc Cenedlaethol. | • Comisiwn Cymunedau Cymraeg \| LLYW.CYMRU<br>• Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>• Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg | • Fframwaith polisi i wrthod, cwtogi neu liniaru cynigion datblygu, er enghraifft, tai, seilwaith cymunedol neu gyfleoedd cyflogaeth, a allai gael effeithiau negyddol ar y Gymraeg.<br>• Nodi Ardaloedd sy'n Sensitif o ran y Gymraeg lle mae'r iaith yn sensitif neu'n bwysig.<br>• Nodi lleoliadau / cymunedau lle gellir diogelu a datblygu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg, diwylliant Cymru a thafodieithoedd lleol.<br>• Croestorri cysylltiadau â darparu tai, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy, ail gartrefi a llety gwyliau, a chyfleoedd cyflogaeth.<br>• Polisi sy'n gofyn am asesiad o hap-ddatblygiadau mawr o fewn Ardaloedd sy'n Sensitif o ran y Gymraeg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | **Gwarchod a gwella tirweddau o ddiddordeb hanesyddol, Ardaloedd Cadwraeth, adeiladau hanesyddol a'u lleoliadau:**<br><br>Mae gan y Parc Cenedlaethol nifer o dirweddau o ddiddordeb hanesyddol ac adnodd treftadaeth adeiledig mewn perthynas â'r adnodd archeolegol, Henebion Cofrestredig, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Ardaloedd Cadwraeth ac Adeiladau Rhestredig. Mae'r rhain, ynghyd â'u lleoliadau, yn debygol o ddod dan bwysau gan ddatblygiad a newid hinsawdd ac arfordirol, a bydd angen eu gwarchod a'u gwella. | • Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 | • Sicrhau bod datblygiad yn gwarchod ac yn gwella asedau treftadaeth gan gynnwys adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, henebion cofrestredig a pharciau a gerddi hanesyddol a'u lleoliadau.<br>• Polisïau i warchod, gwella a hyrwyddo cyfleoedd i fwynhau amgylchedd hanesyddol, cymeriad lleol a hunaniaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol. |

**CYMUNEDAU:** Meithrin lles economaidd-gymdeithasol cymunedau'r Parc Cenedlaethol

| Rhif | Mater Allweddol a Sylwebaeth | Cyd-destun / Ffynonellau | Sut gall CDLl3 ddylanwadu ar y mater hwn? |
|---|---|---|---|
| **Cymdeithasol** | | | |
| 9 | **Diboblogi, poblogaeth sy'n heneiddio a phobl ifanc yn allfudo:**<br><br>Gostyngodd poblogaeth y Parc o 22,644 i 20,933 rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021. Y gostyngiad hwn o 7.6% yn y boblogaeth oedd y mwyaf o blith yr holl Barciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Roedd gostyngiad ym mhob categori oedran dan 64, sy'n rhannol oherwydd diffyg cyfleoedd gwaith a phrisiau tai uchel. Bu cynnydd ym mhob categori oedran dros 65, sy'n golygu bod y boblogaeth yn heneiddio a gwasanaethau a chymunedau'n wynebu heriau. | • Amcanestyniadau aelwydydd Parciau Cenedlaethol, sail 2018<br>• Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio (Llywodraeth Cymru)<br>• Asesiad o Farchnad Dai Leol Sir Benfro 2023<br>• Strategaeth Dai Leol Sir Benfro 2024-2029<br><br>` | • Ystyried a dadansoddi ystod o opsiynau twf i asesu sut mae opsiynau twf yn effeithio ar broffil oedran y Parc Cenedlaethol.<br>• Nodi targed tai addas a nodi safleoedd addas a chyflawnadwy ar gyfer tai, gan ystyried tirwedd ddynodedig y Parc Cenedlaethol.<br>• Galluogi cymysgedd o fathau o dai a deiliadaethau a chyfleoedd cyflogaeth i gadw a denu pobl ifanc, a allai hefyd gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.<br>• Hwyluso gwaith i ddarparu cartrefi sy'n addas ac yn hygyrch ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.<br>• Annog gwaith i ddarparu cartrefi hygyrch ac addasadwy ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio ac asesu'r goblygiadau polisi o ofyn am ganran briodol o gartrefi marchnad newydd i gael eu hadeiladu i Safon Cartrefi Gydol Oes.<br>• Asesu'r angen am dai arbenigol, gan gynnwys tai gwarchod a gofal ychwanegol. |
| 10 | **Lefel uchel o angen am dai fforddiadwy:**<br><br>Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2025 yn nodi lefel uchel o angen am dai fforddiadwy sydd heb ei diwallu gyda dros 5,000 o aelwydydd ar y gofrestr dai yn 2023, gydag | • Amcanestyniadau aelwydydd Parciau Cenedlaethol, sail 2018<br>• Asesiad o Farchnad Dai Leol Sir Benfro 2023<br>• Strategaeth Dai Leol Sir Benfro 2024-2029 | • Archwilio hyfywedd datblygiad i sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf posibl o dai fforddiadwy trwy gytundebau adran 106.<br>• Bydd lefel yr angen am dai fforddiadwy yn uwch nag y gall y system gynllunio ei chyflawni. Gosod targed darparu tai fforddiadwy a nodi safleoedd addas a chyflawnadwy ar gyfer tai, gan gynnwys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | angen net am 82 o gartrefi fforddiadwy y flwyddyn yn y Parc Cenedlaethol. Mae’r angen pennaf am eiddo rhent cymdeithasol ag un ystafell wely. | • Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru (GADC) 2021 | cynlluniau a arweinir gan dai fforddiadwy, gan gynnwys cynlluniau a gyflawnir gan ddefnyddio grant tai cymdeithasol.<br>• Datblygu polisïau i sicrhau bod tai yn briodol o ran maint, deiliadaeth a lleoliad i ddiwallu'r angen a nodwyd.<br>• Cynnwys polisi i gefnogi safleoedd eithriedig tai fforddiadwy.<br>• Cysylltiadau croestoriadol â gwarchod a hyrwyddo’r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| 11 | **Niferoedd uchel o ail gartrefi a llety gwyliau:**<br><br>Sir Benfro sydd â'r ail lefelau uchaf o ail gartrefi a llety gwyliau yng Nghymru. Er bod nifer penodol yn hanfodol i gefnogi'r sector twristiaeth y mae Sir Benfro yn dibynnu arno, gall hyn ei gwneud hi’n anodd i drigolion y Parc Cenedlaethol brynu neu rentu tai.  Gall hefyd gael effaith ar hyfywedd gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol a bywiogrwydd a defnydd o'r Gymraeg. | • Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 12<br>• Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2022<br>• Asesiad o Farchnad Dai Leol Sir Benfro 2023<br>• Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru (2021) | • Bydd CDLl3 yn adolygu nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau at ddibenion twristiaeth - y mae'r Parc Cenedlaethol yn dibynnu arnynt - a'u heffaith ar gymunedau. Mae polisi cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio ystyried mesurau polisi addas, a allai gynnwys cap neu uchafswm ar nifer yr ail gartrefi neu osodiadau byrdymor.<br>• Cysylltiadau croestoriadol â diboblogi, poblogaeth sy’n heneiddio a phobl ifanc yn allfudo, y lefel uchel o angen am dai fforddiadwy, a diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| 12 | **Diwallu anghenion y boblogaeth Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe:**<br><br>Mae gan Sir Benfro boblogaeth uchel o Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe. Cofnododd cyfrif carafannau Ionawr 2025 178 o garafannau yn Sir Benfro, sef y trydydd uchaf yng Nghymru. Nododd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro 2019 fod angen cyfanswm o 39 o leiniau preswyl dros y cyfnod 2019 i 2033. | • Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro 2019<br>• Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru | • Cynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf i asesu ceisiadau cynllunio o ran datblygu safleoedd mewn lleoliadau priodol ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nid oes angen penodol wedi'i nodi yn y Parc Cenedlaethol a rhagwelir y bydd yr angen yn cael ei ddiwallu drwy ddyraniadau yn CDLl 2 Cyngor Sir Penfro. | | |
| 13 | **Tlodi ac anghydraddoldeb (yn enwedig tlodi plentyndod)**<br><br>Mae'r Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro yn nodi tlodi ac anghydraddoldebau fel maes blaenoriaeth. Mae ystadegau'n dangos bod cyfradd tlodi plant Sir Benfro ymhlith yr uchaf yng Nghymru, yn seiliedig ar blant 0-15 oed sy'n byw mewn aelwydydd sydd ag incwm canolrifol o lai na 60% cyn costau tai. Gall tlodi ac amodau byw gwael gael effaith ar gyflawniad addysgol, cymwysterau ac iechyd a lles. | • Cynllun llesiant Sir Benfro<br>• Trechu Tlodi: Ein Strategaeth 2023 (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro)<br>• Cynllun Partneriaeth APCAP (2025-2029) | • Hwyluso’r ddarpariaeth o dai addas, gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion y boblogaeth<br>• Creu cyfleoedd i gefnogi'r ddarpariaeth o gyfleoedd cyflogaeth â thâl da<br>• Hyrwyddo cyfleoedd teithio llesol ar draws trefi a phentrefi, a fydd hefyd yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol ac yn lleihau anghydraddoldebau.<br>• Sicrhau bod tai, cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau yn cael eu darparu mewn lleoliadau sy'n hygyrch drwy ddulliau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Hwyluso'r ddarpariaeth chwarae, hamdden a mannau agored i gefnogi natur, hybu iechyd a lles corfforol a meddyliol, a lleihau tlodi ac anghydraddoldebau. |
| 14 | **Creu lleoedd a dylunio cynaliadwy**<br><br>Er bod y Parc Cenedlaethol yn hyrwyddo safonau dylunio uchel o ran cymeriad a chapasiti’r dirwedd, mae angen cynnal y safon hon yn gyson. Gall datblygiad newydd danseilio nodweddion lleol a'r rhinweddau sy'n rhoi hunaniaeth unigryw i bob anheddiad, gan o bosibl fygwth treftadaeth naturiol, ddiwylliannol ac adeiledig y Parc a chyfyngu ar gyfleoedd creu lleoedd cadarnhaol a chymunedau gwydn. | • Siarter Creu Lleoedd Cymru (2020)<br>• Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru (GADC) 2021<br>• Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040<br>• Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 12<br>• NCT 12: Dylunio | • Gweithio ochr yn ochr â materion eraill a nodwyd fel yr argyfyngau natur a hinsawdd, cydlyniant cymunedol, iechyd a lles, hygyrchedd, a thrafnidiaeth.<br>• Gosod polisïau i sicrhau bod datblygiad yn cyflawni safonau uchel o ran dylunio cynaliadwy gyda phob annedd newydd yn bodloni'r safonau a nodir mewn polisi cynllunio cenedlaethol gan gynnwys Safonau Cartrefi Gydol Oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Cymru Sero Net 2021-2025<br>• Strategaeth Dai Leol Sir Benfro 2024-2029 | • Mynd i'r afael â dylunio ynni-effeithlon sy'n ymateb i'r hinsawdd ar gam cynnar yn y broses ddylunio trwy ddwyseddau a phatrymau datblygu priodol ac ymgorffori dyluniadau adeiladau cynaliadwy<br>• Ystyried polisi anheddau newydd i alluogi ystyriaeth o garbon corfforedig mewn anheddau presennol<br>• Annog gwaith i ôl-osod adeiladau presennol yn sensitif (inswleiddio, ynni adnewyddadwy, pympiau gwres) tra'n parchu cymeriad, treftadaeth a rhinweddau'r dirwedd.<br>• Hyrwyddo atebion sy'n seiliedig ar natur, fel SDCau, seilwaith gwyrdd, ac arferion atafaelu carbon sydd hefyd yn gwella ansawdd lleoedd. |
| **Economaidd** | | | |
| 15 | **Cyfleoedd cyflogaeth – gwaith teg, tymhorol, cyflog isel ac ati**<br><br>Mae cyflogaeth yn y Parc Cenedlaethol yn aml ar gyflog isel ac yn dymhorol, gydag enillion is na chyfartaledd Cymru a hawliadau budd-daliadau'r gaeaf bron ddwywaith lefelau'r haf. Mae prisiau tai a rhenti uchel (roedd prisiau canolrifol 2023 yn 9.7 gwaith y cyflogau canolrif) yn arwain at heriau penodol i bobl ifanc. Mae poblogaeth sy'n heneiddio'r Parc Cenedlaethol, nifer isel o unigolion o oedran gweithio, a diffyg safleoedd datblygu tir llwyd yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer twf cyflogaeth. | • Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru 2022<br>• Porthladd Rhydd Celtaidd<br>• Cynllun Partneriaeth APCAP (2025-2029) | • Hyrwyddo polisïau i ddiogelu tir a safleoedd cyflogaeth presennol a gweithio gyda thirfeddianwyr i ddwyn tir a danddefnyddir/tir gwag/tir llwyd ymlaen mewn lleoliadau cynaliadwy o fewn neu ger canolfannau.<br>• Cydweithio â Chyngor Sir Penfro i annog datblygiad tir yn y dyfodol ger ardaloedd twf rhanbarthol i sicrhau twf economaidd ledled y rhanbarth a chefnogi swyddi o ansawdd uchel (Porthladd Rhydd Celtaidd).<br>• Hwyluso cyfleoedd ar gyfer swyddi ynni gwyrdd<br>• Hwyluso gwelliant yn y ddarpariaeth o fand eang gwledig a chysylltiadau rhyngrwyd cyflymder uchel i fynd i'r afael ag allgáu digidol mewn ardaloedd gwledig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Gwneud cyflogaeth yn fwy hygyrch ac annog teithio llesol, gan leihau'r angen i deithio i'r gwaith mewn car preifat.<br>• Cysylltiadau croestoriadol â diboblogi, poblogaeth sy'n heneiddio a phobl ifanc yn allfudo, a diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| 16 | **Cydbwyso gofynion cystadleuol twristiaeth ag amddiffyn rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol a'i gymunedau**<br><br>Mae twristiaeth yn chwarae rhan sylweddol ym mherfformiad economaidd y Parc Cenedlaethol, gyda'r effaith economaidd rhwng 2020 a 2021 yn cynyddu gan 95% a chyfanswm yr ymwelwyr hefyd yn cynyddu gan 102% yn y cyfnod hwn. Felly, gallai cydbwyso'r manteision hyn wrth gynnal cynaliadwyedd hirdymor beri risg o danseilio'r amgylchedd a'r cymeriad sy'n denu ymwelwyr i'r Parc Cenedlaethol. Mae cyfnodau prysur tymhorol mewn safleoedd gwersylla yn cyfrannu'n sylweddol at y pwysau hwn, gan arwain at effeithiau tirwedd a gweledol andwyol a rhoi pwysau anghymesur ar seilwaith lleol yn ystod misoedd yr haf. | • Effaith Economaidd Twristiaeth yn Sir Benfro 2024<br>• Cynllun Rheoli Cyrchfannau Sir Benfro<br>• Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) ar gyfer safleoedd 28 diwrnod ar gyfer gwersylla, carafannau a chartrefi symudol | • Gwneud twristiaeth yn fwy adfywiol, gan adfer neu wella tirwedd, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol yn weithredol - ochr yn ochr â pholisi tirwedd a morluniau.<br>• Adolygu sensitifrwydd tirwedd a morluniau'r Parc Cenedlaethol i ddatblygiad twristiaeth newydd, yn enwedig datblygiadau gwersylla a charafanio newydd.<br>• Hwyluso datblygiad sy'n cefnogi twristiaeth drwy gydol y flwyddyn, twristiaeth ar adegau tawel, er mwyn lleihau pwysau tymhorol. |
| 17 | **Manwerthu a newidiadau i ganol trefi**<br><br>Mae cyfradd gymedrig y Parc Cenedlaethol ar gyfer safleoedd manwerthu gwag yn parhau i fod yn isel ar oddeutu 4.5%, sy'n adlewyrchu gwydnwch cryf ei ganolfannau. Fodd bynnag, mae newidiadau parhaus tuag at siopa ar-lein | • Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040<br>• PCC12<br>• Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 4: Datblygiad Manwerthol a Masnachol | • Adolygu ardaloedd manwerthu cyfredol yn y Parc Cenedlaethol ac ystyried newidiadau lle bo angen i brif ffryntiadau manwerthu ac ystyried ffryntiadau eilaidd i adlewyrchu tystiolaeth yr arolwg manwerthu diwygiedig a datblygiadau newydd fel cynllun adfywio Harbwr Saundersfoot |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ac ymweliadau a arweinir gan brofiadau yn debygol o yrru newid parhaol. Gall polisïau sy'n rhoi diffiniad llym o ddefnyddiau manwerthu gyfyngu ar arallgyfeirio a lleihau'r gallu i addasu i dueddiadau manwerthu a hamdden newidiol. | • Cydweithio er Budd Manwerthu: Cynllun Gweithredu Fforwm Manwerthu Cymru (2023)<br>• Datganiad Sefyllfa Canol Trefi yn Gyntaf Llywodraeth Cymru (2023)<br>• Adroddiadau Monitro Blynyddol CDLl 2 (Dangosydd 34 ar gyfraddau safleoedd manwerthu gwag) | • Ystyried ac addasu i sut mae arferion siopa newidiol yn ail-lunio rôl canolfannau manwerthu, gydag ymwelwyr nid yn unig yn prynu nwyddau ond hefyd yn chwilio am brofiadau.<br>• Ystyried defnyddiau llawr uchaf i wneud y mwyaf o le a hyfywedd a bywiogrwydd canolfannau manwerthu'r Parc Cenedlaethol. |

**YR HINSAWDD AC ADNODDAU NATURIOL:** Lleihau ac addasu i effeithiau newid hinsawdd a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

| Rhif | Mater Allweddol a Sylwebaeth | Cyd-destun / Ffynonellau | Sut gall CDLI3 ddylanwadu ar y mater hwn? |
|---|---|---|---|
| 18 | **Ansawdd Dŵr (afonol, morol, ffosffadau, nitradau, NAT)**<br><br>Mae amgylchedd dŵr y Parc Cenedlaethol, cynefin allweddol ar gyfer bywyd gwyllt yng Nghymru, yn wynebu pwysau cynyddol oherwydd llygredd maethynnau, yn bennaf o amaethyddiaeth, trin carthion, a ffynonellau gwasgaredig. Mae llawer o gyrff dŵr wedi'u dosbarthu fel "Cymedrol" (Cylch CFfD 3, 2021), ac mae lefelau maethynnau cynyddol yn achosi i rai fethu Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd. Mae hyn yn her sylweddol i'r Awdurdod, oherwydd gall oedi datblygiadau tai a seilwaith nes bod atebion niwtraliaeth maethynnau yn cael eu gweithredu, gan o bosibl gyfyngu ar dwf cynaliadwy a chynllunio defnydd tir o fewn y Parc. | • Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017<br>• Canllawiau CNC: Nitradau a Ffosffadau<br>- Asesiadau cyflwr ar gyfer safleoedd morol Ewropeaidd (SME) Cymru<br>- Cyngor cadwraeth ar gyfer safleoedd morol Ewropeaidd (Rheoliad 37)<br>- Asesiad Cydymffurfiaeth ACAau Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ansawdd Dŵr 2024<br>• Cyfrifiannell Maetholion Cymru Gyfan<br>• Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021<br>• Rhaglen Rheoli Asedau Dŵr Cymru 8 2025-30 (RhRhA 8) | • Gofyn i ddatblygiadau newydd mewn dalgylchoedd ACA sy'n methu ddangos niwtraliaeth maethynnau neu welliant, wedi'i ategu gan ddatganiadau neu gyfrifiadau cyllideb maethynnau.<br>• Annog camau lliniaru lle mae llwythi maethynnau'n cynyddu, e.e. gwaith trin wedi'i uwchraddio, arferion amaethyddol gwell, seilwaith gwyrdd, gwlyptiroedd adeiledig, neu fasnachu/gwrthbwyso maethynnau.<br>• Sicrhau bod datblygiad yn ystyried capasiti carthffosiaeth a thriniaeth, gan ofyn am welliannau, cyfraniadau seilwaith, neu atebion oddi ar y safle lle rhagorir ar derfynau; gosod trothwyon ar gyfer cysylltiad lle bo angen. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio<br>• Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 12<br>• Cymru'r Dyfodol 2040 | |
| 19 | **Llifogydd a Newid Arfordirol**<br><br>Mae ASGLI Cam 1 De-orllewin Cymru yn nodi bod y Parc Cenedlaethol mewn perygl o lifogydd llanw yn bennaf. Mae achosion o lifogydd a digwyddiadau tywydd eithafol sy'n cyflymu erydiad arfordirol yn dod yn fwy aml, a fydd yn arwain at gynnydd mewn difrod a tharfu. Bydd angen i'r Cynllun diwygiedig nodi nifer yr eiddo, gwasanaethau a seilwaith sydd mewn perygl o lifogydd. | • NCT15<br>• Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC<br>• Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol<br>• Datganiad Ardal De-orllewin Cymru - CNC<br>• Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (2020)<br>• Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) (2021)<br>• Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru (2024)<br>• Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC)<br>• Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru<br>• Grŵp Peirianneg Arfordirol Abertawe a Bae Caerfyrddin | • Cyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd o risg llifogydd<br>• Defnyddio polisïau o fewn y CRhT i gydnabod ardaloedd lle mai'r strategaeth hirdymor a ffefrir yw adlinio a reolir neu ddim ymyrraeth weithredol, gan gyfyngu'n llym ar ddatblygiad mewn ardaloedd lle rhagwelir erydiad neu lle mae angen mesurau cydbwyso.<br>• Gofyn am ddyluniad sy'n wydn rhag llifogydd, clustogfeydd, seilwaith gwyrdd, llwybrau dianc, storfeydd llifogydd naturiol, lefelau llawr uwch ar gyfer datblygiad mewn parthau llifogydd a nodwyd.<br>• Polisïau i alinio datblygiad a nodwyd mewn parth llifogydd â'r weithdrefn Corff Cymeradwyo SDCau (CCS), gan gefnogi gweithrediad systemau draenio cynaliadwy ar ddatblygiadau newydd. |
| 20 | **Ynni adnewyddadwy a charbon isel:**<br><br>Mae angen cynhyrchu ynni adnewyddadwy i gyrraedd targedau cenedlaethol, lliniaru'r ffactorau sy'n cyfrannu at newid hinsawdd a lleihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil. Bydd angen cydbwyso gwaith i ddarparu a | • Cymru'r Dyfodol 2040<br>• Cymru'r Dyfodol 2040<br>• Adolygiad o Dargedau Ynni Adnewyddadwy Cymru: crynodeb o'r ymatebion | • Darparu fframwaith polisi cadarnhaol ar gyfer ynni adnewyddadwy wedi'i gydbwyso yn erbyn effeithiau tirwedd / morlun a gweledol.<br>• Ystyried polisïau penodol ar gyfer microgynhyrchu domestig<br>• Ystyried polisi ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chynyddu seilwaith ynni adnewyddadwy yn erbyn ystyriaethau'n ymwneud â chymeriad y dirwedd a morluniau a rhinweddau arbennig. | • Renewable-Energy-Assessment-Updated-January-2016.pdf<br>• Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) Sir Benfro 2022 | • Fframwaith polisi a chanllawiau CCA ar gynhyrchiant Ffermydd Gwynt Arnofiol ar y Môr (FfGAM).<br>• Cefnogi cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau gwres a chynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel lleol, a chydleoli cynigion a dyraniadau tir newydd gyda datblygiadau, cyflenwyr gwres a defnyddwyr gwres presennol.<br>• Croestorri gyda Thir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas. |
| 21 | **Newid hinsawdd ac addasu i'r hinsawdd**<br><br>Disgwylir i newid hinsawdd ddod â thymereddau cynhesach, patrymau dyddodiad newidiol a thywydd mwy eithafol, yn enwedig i ardaloedd arfordirol. Mewn ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd, mae'r Awdurdod wedi addo haneru allyriadau carbon yn y Parc Cenedlaethol erbyn 2030, fel rhan o'r broses o bontio i sero net erbyn 2050. Bydd y mater hwn yn sbardun allweddol i'r Cynllun, gan ei gwneud yn hanfodol bod unrhyw ddatblygiadau'n cael eu cynllunio a'u dylunio gyda dull rhagofalus, hirdymor, gan sicrhau gwydnwch rhag effeithiau newid hinsawdd. | • Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru (2024)<br>• Datganiad Ardal De-orllewin Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru), 2020<br>• Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd Sir Benfro (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) 2022<br>• Cynllun Partneriaeth APCAP (2025-2029) | • Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cynnwys mesurau gwydnwch rhag newid hinsawdd, e.e. dylunio ynni-effeithlon mewn adeiladau newydd, annog atebion sy'n seiliedig ar natur, a hyrwyddo egwyddorion economi gylchol fel adeiladu cynaliadwy ac effeithlonrwydd adnoddau.<br>• Cyfeirio twf at leoliadau cynaliadwy, lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo cyfleoedd i deithio drwy ddulliau llesol a defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy i leihau allyriadau.<br>• Peidio â lleoli datblygiad mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd, erydiad arfordirol, neu beryglon hinsawdd eraill. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 22 | **Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas**<br><br>Mae cyfran sylweddol o'r Parc Cenedlaethol (45.6%) yn dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (GMA) (Dosbarthiad Tir Amaethyddol Graddau 1, 2, a 3a), gyda Graddau 2 a 3a yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae angen cydbwyso ac asesu unrhyw golledion GMA yn erbyn y gofyniad i ddatblygiad ddiwallu anghenion cymunedol. | • Map Rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol (Cymru)<br>• Cymru'r Dyfodol 2040<br>• PCC 12<br>• Cynllun Partneriaeth APCAP (2025-2029) | • Cynnwys polisïau sy'n gwrthwynebu datblygiad ar dir amaethyddol GMA oni bai bod yr angen - wedi'i brofi gyda thystiolaeth - yn drech na'r rhesymau dros ei amddiffyn.<br>• Ceisio datblygu cymaint â phosibl o dir llwyd a thir amaethyddol gradd is mewn modd priodol<br>• Ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu arolygon Dosbarthiad Tir Amaethyddol safle-benodol lle cynigir datblygiad ar dir GMA posibl.<br>• Integreiddio ymdrechion i ddiogelu tir GMA ag amcanion CDLl ehangach, megis: gwydnwch rhag newid hinsawdd, adfer natur, a budd net i fioamrywiaeth.<br>• Ystyried sefydlu trothwyon ar gyfer pryd mae colli GMA yn dderbyniol - e.e. ar gyfer anghenion cymunedol, ynni adnewyddadwy, tai neu seilwaith sy'n drech na'r rhesymau dros ei amddiffyn. |
| 23 | **Mwynau:**<br><br>Ar hyn o bryd mae'r Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at ranbarth Gorllewin Cymru o ran cronfeydd mwynau a'r cyflenwad o fwynau. Er y cydnabyddir na ddylid gwneud unrhyw ddyraniadau yn y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol y tu hwnt i'r cronfeydd a ganiateir ar hyn o bryd (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol), bydd angen sicrhau cyflenwadau digonol ar gyfer y rhanbarth yn y dyfodol. | • Cymru'r Dyfodol 2040<br>• Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru, 2il Adolygiad<br>• Datganiad Cydweithredu Is-ranbarthol ar gyfer Is-ranbarth De-orllewin Cymru ar y Datganiad Technegol Rhanbarthol, 2il Adolygiad | • Polisïau i sicrhau diogelwch adnoddau mwynol<br>• Fframwaith polisi i sicrhau na chaiff unrhyw weithfeydd mwynau newydd neu estyniadau (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol) eu caniatáu yn y Parc Cenedlaethol.<br>• Datganiad Cydweithredu Is-ranbarthol i sicrhau y gall y rhanbarth fodloni gofynion rhanbarth Gorllewin Cymru.<br>• Sicrhau bod gweithfeydd mwynau presennol yn cael eu hadfer ar ddiwedd eu caniatâd a fydd yn cyfrannu at dargedau natur a bioamrywiaeth a'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24 | **Lleihau allyriadau carbon / pontio i ynni sero net**<br><br>Datganodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd yn 2019 ac mae wedi ymrwymo i gyflawni carbon sero net erbyn 2050. Mae dibyniaeth fawr ar y car preifat yn y Parc Cenedlaethol ac mae angen cefnogi ein trawsnewidiad ynni, trafnidiaeth ac adeiladau i sero net. | • Strategaeth Dai Leol Sir Benfro 2024-2029<br>• Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar newidiadau i Reoliadau Adeiladu Rhan L (arbed tanwydd ac ynni)<br>• Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2<br>• Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru (2022)<br>• Strategaeth Gwres Cymru (2024)<br>• Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd Sir Benfro (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) 2022<br>• National Parks Net Zero Report, Small World Consulting | • Cyfeirio datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy gyda mynediad at wasanaethau a chyfleusterau trwy ddulliau teithio cynaliadwy<br>• Hyrwyddo'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy (gweler Polisi Cynllunio Cymru) i roi blaenoriaeth i fodloni'r galw am deithio trwy: teithio llesol trwy gerdded a beicio ar draws trefi a phentrefi; cynyddu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a chefnogi seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn mewn lleoliadau priodol. Bydd y mesurau hyn hefyd yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol, yn lleihau anghydraddoldebau ac yn cyfrannu at sero net trwy ddatgarboneiddio teithio.<br>• Sicrhau bod datblygiad newydd yn cyflawni budd net i fioamrywiaeth gan gynnwys lle ar gyfer coridorau gwyrdd, SDCau, plannu coed, neu glustogfeydd cynefinoedd.<br>• Hwyluso'r ddarpariaeth o ynni adnewyddadwy mewn lleoliadau priodol.<br>• Ystyried goblygiadau hyfywedd polisïau i fynnu anheddau ac adeiladau sero net |

# 3. Y Weledigaeth Ddrafft ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2040

3.1.1 Mae'r Weledigaeth gyffredinol ar gyfer y Cynllun yn nodi sut y bwriedir datblygu, newid neu warchod y Parc Cenedlaethol yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae hefyd yn darparu'r fframwaith ar gyfer strategaeth y Cynllun a pholisïau manwl a fydd yn llywio ac yn rheoli datblygiad.

3.1.2 Mae'r Weledigaeth CDLl2 bresennol wedi'i hadolygu ac ochr yn ochr ag ystyried y materion allweddol a'r newidiadau cyd-destunol, polisi a deddfwriaethol, mae'r Awdurdod wedi penderfynu datblygu Gweledigaeth ddrafft newydd, ddiwygiedig sy'n adlewyrchu'n well yr heriau a'r cyfleoedd presennol y mae'r Parc Cenedlaethol yn eu hwynebu hyd at 2040, ac un sy'n gyson â'r Cynllun Llesiant, y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Partneriaeth.

3.1.3 Yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), rhaid i'r weledigaeth fod yn ddatganiad cryno, cadarnhaol gyda ffocws, cynnwys pwyslais gofodol o ran defnydd tir sy'n adlewyrchu'r gwahaniaethau daearyddol amrywiol o fewn ardal ehangach yr Awdurdod Cynllunio, a bod yn benodol a phriodol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r materion lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Yn ogystal, rhaid i'r weledigaeth fod yn gyson â'r amcanion a'r cynllun llesiant a strategaethau lleol eraill gan gynnwys Datganiadau Ardal a Chynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol.

## 3.2 Cysondeb â Chynlluniau eraill

3.2.1 Mae **Cynllun Llesiant Sir Benfro** yn nodi manylion ynghylch sut y bydd yn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Benfro gyda'i weledigaeth fel a ganlyn:

"datgloi pŵer a photensial pobl a chymunedau Sir Benfro fel eu bod yn hapus, yn iach ac yn byw'n dda, ein cymunedau'n garedig, diogel, dyfeisgar a bywiog, ein heconomi'n wyrdd a ffyniannus, a'n hamgylchedd yn cael ei warchod a'i wella."

3.2.2 Mae'r **Cynllun Corfforaethol** yn nodi strategaeth lefel uchel sy'n nodi'r pedwar maes blaenoriaeth, sef Cadwraeth, Cysylltiad, Cymunedau a'r Hinsawdd, ac yn gosod gweledigaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol dros gyfnod byrrach na'r Cynllun Datblygu Lleol. Mynegir y weledigaeth fel:

"Parc Cenedlaethol lle mae natur, diwylliant a chymunedau'n ffynnu."

3.2.3 Mae'r **Cynllun Partneriaeth** yn nodi dibenion y Parc Cenedlaethol, y camau i'w cymryd dros y pum mlynedd nesaf, y partneriaid sy'n rhan o'r gwaith, a'r mesurau llwyddiant. Gweledigaeth y Cynllun Partneriaeth yw:

"Sicrhau dyfodol ffyniannus, cynaliadwy i'r amgylchedd ac i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol."

3.2.4 Mae gweledigaeth y CDLl2 mabwysiedig yn cydnabod, er mwyn parchu a lle y bo'n bosibl wella rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol, fod cyfleoedd datblygu'n gyfyngedig ac na fydd poblogaeth y Parc yn gallu cynyddu'n sylweddol. Mae'r cyfleoedd hynny'n cael eu rhoi i'r datblygiadau sy'n cyfrannu fwyaf at gynnal cymunedau lleol, lle maen nhw'n gyson â dibenion statudol y Parc Cenedlaethol. Mae'r weledigaeth hon wedi'i hadolygu i sicrhau bod yr elfennau hynny sy'n parhau'n gadarn yn cael eu cadw a/neu eu mireinio lle bo angen ar gyfer CDLl3, gan sicrhau elfen ofodol glir a chryno sy'n nodi'r hyn sy'n gwneud Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn unigryw.

## 3.3 Y Weledigaeth Ddrafft

3.3.1 Ystyrir bod y Weledigaeth Ddrafft ganlynol ar gyfer CDLl3, gan ystyried y Cynlluniau uchod a'r materion a nodwyd, fel y nodir yn adran 2 o'r papur hwn, yn darparu datganiad cadarnhaol, uchelgeisiol sy'n cyfleu cyfeiriad CDLl3 yn nhermau cynllunio defnydd tir.

**Erbyn 2040, bydd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol am ei natur a'i gymunedau ffyniannus, a alluogir trwy warchod a gwella ei dirweddau, ei forluniau a'i rinweddau arbennig unigryw. Arddangosir hyn gan ein hymrwymiad i adferiad natur, gwydnwch hinsawdd a chreu lleoedd cynaliadwy, sef egwyddorion sylfaenol pob datblygiad.**

- Bydd y Parc Cenedlaethol yn cyflawni manteision mesuradwy ar gyfer bioamrywiaeth a bydd yn arwain ymdrechion i gyflawni statws carbon sero net erbyn 2050.

- Gall trigolion ac ymwelwyr gael mynediad at natur, diwylliant a threftadaeth drwy deithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy, gan ddefnyddio a dathlu'r Gymraeg, a byddant yn mwynhau iechyd a lles corfforol a meddyliol gwell.

- Bydd y Parc Cenedlaethol yn galluogi cymunedau arfordirol a gwledig sy'n gytbwys o ran oedran trwy ddarparu cyfleoedd economaidd amrywiol, cynaliadwy a gwydn a thai o ansawdd uchel, gan gynnwys tai fforddiadwy a chyfleusterau sy'n diwallu anghenion lleol.

# 4. Amcanion Drafft Cynllun Datblygu Lleol 3




4.1.1 Er mwyn mynd i'r afael â'r materion a chyflawni'r Weledigaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol, mae angen set o amcanion. Mae'r 16 o amcanion drafft yn cydymffurfio â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, yn ystyried polisi cynllunio cenedlaethol a Chynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac yn nodi beth ddylai'r canlyniadau allweddol fod, mewn perthynas â materion cynllunio defnydd tir, y mae'r Awdurdod yn rhagweld y byddant yn cael eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun.

4.1.2 Yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), dylai amcanion y cynllun fod yn ddatganiadau â ffocws sy'n ceisio mynd i'r afael â'r prif faterion lles cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol a nodwyd yn yr ardal, dangos bod y Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy yn cael eu cyflawni, ac alinio â nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â chynnig cysylltiad clir â'r weledigaeth.


4.1.3 Yn unol â'r materion allweddol, mae'r amcanion drafft wedi'u grwpio o dan y pedwar grŵp: Cadwraeth; Cysylltiad a Threftadaeth Ddiwylliannol; Cymunedau; a'r Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol ac yn alinio â'r saith nod llesiant fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

4.1.4 Mae'r amcanion drafft wedi'u gosod yng nghyd-destun yr angen i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol.

# Tabl 2: Amcanion Drafft

|  **CADWRAETH:** Gwarchod a gwella tirweddau, morluniau, harddwch naturiol a bywyd gwyllt | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif Amcan CDLl 3** | **Amcan** | **Cysylltiad â materion a nodwyd** | **Cysylltiad â'r 4 Thema** |
| 1 | Gwarchod a gwella cymeriad y dirwedd a morluniau a rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. | Pob un |  |
| 2 | Gwarchod, gwella a rheoli amgylchedd naturiol eithriadol y Parc Cenedlaethol, ei amrywiaeth gyfoethog o rywogaethau a chynefinoedd a'u cysylltedd i sicrhau eu gwydnwch rhag newid hinsawdd tra'n cyflawni manteision cymdeithasol, economaidd ac iechyd a lles ehangach. | 1, 2, 3, 4, 5, 8, 14, 18, 19, 21, 23, 24 |  |
| 3 | Gwarchod, gwella a hyrwyddo rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol - awyr dywyll, seinweddau a llonyddwch - gan gyflawni'r manteision economaidd-gymdeithasol mwyaf posibl, cyfrannu at les ac addasu i newid hinsawdd. | 1, 2, 4, 5, 6, 8, 14, 20, 21, 24 |  |

| **CYSYLLTIAD A THREFTADAETH DDIWYLLIANNOL:** Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol a'r iaith Gymraeg a gwella mynediad cyfartal i'r Parc Cenedlaethol | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif Amcan CDLl 3** | **Amcan** | **Cysylltiad â materion a nodwyd** | **Cysylltiad â'r 4 Thema** |
| 4 | Creu lleoedd cynhwysol, hygyrch a chynaliadwy sy'n galluogi pobl i gael mynediad at wasanaethau, cyfleusterau, mannau agored, natur, cyfleusterau cymunedol a diwylliannol a thai o ansawdd uchel i leihau anghydraddoldeb. | 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 24 | |
| 5 | Hyrwyddo mynediad cynaliadwy sy'n ceisio lleihau'r ddibyniaeth ar geir a'r angen i deithio, gan gynnig cyfleoedd i wella teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus i drigolion ac ymwelwyr. | 1, 4, 5, 6, 9, 13, 14, 15, 16, 21, 24 | |
| 6 | Nodi cyfleoedd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diogelu a gwella diwylliannau lleol, tafodieithoedd Sir Benfro ac ardaloedd sy'n sensitif o ran y Gymraeg. | 1, 3, 4, 7, 8, 10, 11, 14, 15, 16 | |
| 7 | Gwarchod, gwella a hyrwyddo amgylchedd hanesyddol, diwylliannol, treftadaeth ac adeiledig y Parc Cenedlaethol, gan wneud y mwyaf o'r manteision ehangach i iechyd a lles a'r economi. | 1, 3, 4, 5, 7, 8, 14, 16 | |

 **CYMUNEDAU:** Meithrin lles economaidd-gymdeithasol cymunedau'r Parc Cenedlaethol

| Rhif Amcan CDLl 3 | Amcan | Cysylltiad â materion a nodwyd | Cysylltiad â’r 4 Thema |
|---|---|---|---|
| 8 | Sicrhau bod y tai a ddarperir mor briodol â phosibl, gan gynnwys tai fforddiadwy, i ddiwallu'r angen a nodwyd mewn lleoedd cynaliadwy, cysylltiedig nad ydynt yn peryglu dibenion y Parc Cenedlaethol. | 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 24 |  |
| 9 | Cynyddu cyfleoedd i'r boblogaeth iau fyw a gweithio yn y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys ystyried effaith ail gartrefi, a darparu cyfleoedd i ddarparu cartrefi sy’n addas a hygyrch ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio gan arwain at gymunedau mwy cytbwys a chynaliadwy. | 1, 2, 5, 7, 9, 10, 11, 13, 14, 15, 24 |  |
| 10 | Sicrhau bod dyluniad yr holl ddatblygiadau yn y Parc Cenedlaethol yn adlewyrchu ei rinweddau tirwedd a threflun arbennig a'i nodweddion lleol unigryw, yn bodloni'r safonau uchaf o ran y defnydd o adnoddau, gan gynnwys lleihau gwastraff, ac yn ystyried effaith hinsawdd sy'n newid. | 1, 2, 3, 4, 5, 8, 10, 11, 14, 16, 18, 21, 24 |   |
| 11 | Hyrwyddo a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth adfywiol sy'n cefnogi lles economaidd a chynaliadwyedd cymunedau'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys cydbwyso'r galw am lety gwyliau, wrth geisio cyfleoedd i adfer tirwedd, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol yn weithredol. | 1, 2, 3, 4, 5, 7, 8, 11, 14, 16, 18, 21, 24 |   |
| 12 | Cynnal a gwella canolfannau manwerthu'r Parc Cenedlaethol fel canolfannau bywiog, hyfyw ac amlswyddogaethol sy'n gwasanaethu anghenion trigolion lleol ac ymwelwyr tra'n parhau i fod yn hyblyg yn wyneb newidiadau’r dyfodol. | 1, 4, 6, 14, 15, 17 |  |

**YR HINSAWDD AC ADNODDAU NATURIOL:** Lleihau ac addasu i effeithiau newid hinsawdd a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

| Rhif Amcan CDLl 3 | Amcan | Cysylltiad â materion a nodwyd | Cysylltiad â’r 4 Thema |
|---|---|---|---|
| 13 | Diogelu a gwella adnoddau naturiol ac ansawdd aer, dŵr a phridd (gan gynnwys y tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas) yn y Parc Cenedlaethol a lleihau nifer y ffynonellau newydd o lygredd a halogiad sy’n cael eu creu, gan gydnabod bod cyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu tir llwyd. | 1, 2, 3, 4, 10, 15, 16, 18, 20, 21, 22, 24 |  |
| 14 | Sicrhau nad yw datblygiad hynod fregus newydd yn digwydd mewn lleoliadau sydd mewn perygl o lifogydd neu a allai gynyddu'r risg o lifogydd mewn lleoliad arall, a sicrhau bod y datblygiad wedi'i gynllunio'n gynaliadwy i ddarparu draenio a mesurau rheoli llifogydd lle bo hynny'n briodol. | 1, 2, 5, 10, 14, 15, 16, 18, 19, 21 |  |
| 15 | Hyrwyddo cyfleoedd arbed ynni ac ynni-effeithlonrwydd, defnyddio ynni adnewyddadwy a charbon isel i leihau allyriadau carbon, cyflawni targedau cenedlaethol a datgarboneiddio teithio i addasu i newid hinsawdd a chefnogi'r broses o bontio i sero net. | 1, 3, 4, 5, 6, 10, 14, 18, 20, 21, 24 |  |
| 16 | Diogelu adnoddau mwynol y Parc Cenedlaethol tra'n sicrhau na chaiff unrhyw weithfeydd mwynau newydd nac estyniadau i weithfeydd mwynau presennol eu caniatáu, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. | 1, 2, 4, 5, 14, 21, 23, 24 |  |

# Atodiadau

## Atodiad 1: Amcanion Drafft Cynllun Datblygu Lleol 3

| **Rhif amcan** | **Amcan Cynllun Datblygu Lleol 3** |
|---|---|
| 1 | Tirweddau, morluniau a rhinweddau arbennig |
| 2 | Amgylchedd naturiol a chysylltedd |
| 3 | Awyr dywyll, seinweddau a llonyddwch |
| 4 | Lleoedd cynhwysol, hygyrch a chynaliadwy |
| 5 | Trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol gwell |
| 6 | Diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliannau Cymru |
| 7 | Gwarchod a gwella treftadaeth a diwylliant hanesyddol |
| 8 | Darparu cymaint o dai fforddiadwy â phosibl |
| 9 | Cymunedau sy'n gytbwys o ran oedran |
| 10 | Dylunio datblygiad |
| 11 | Cyfleoedd twristiaeth adfywiol |
| 12 | Cynnal a gwella canolfannau manwerthu |
| 13 | Diogelu a gwella adnoddau naturiol |
| 14 | Llifogydd |
| 15 | Arbed ynni ac ynni adnewyddadwy |
| 16 | Diogelu adnoddau mwynol |

**Atodiad 2:** Adolygiad o Amcanion Drafft CDLl3 yn erbyn Amcanion Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

| | Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n Fwy Cyfartal | Cymru o Gymunedau Cydlynus | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan** | | | | | | | |
| 1 | • | • | • | | | | • |
| 2 | • | • | • | | | | • |
| 3 | • | • | • | | | • | • |
| 4 | | • | • | • | • | • | |
| 5 | | • | • | • | • | • | |
| 6 | | • | • | • | • | • | |
| 7 | | • | • | • | • | • | |
| 8 | • | | • | • | • | • | |
| 9 | • | | • | • | • | • | |
| 10 | • | | • | • | • | • | |
| 11 | • | | • | • | • | • | |
| 12 | • | | • | • | • | • | |
| 13 | • | • | | | | | • |
| 14 | • | • | | | | | • |
| 15 | • | • | | | | | • |
| 16 | • | • | | | | | • |




Ffynhonnell: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

| Nod llesiant | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith teg |
| Cymru Gydnerth | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid hinsawdd). |
| Cymru Iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| Cymru sy'n Fwy Cyfartal | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). |
| Cymru o Gymunedau Cydlynus | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

**Atodiad 3:** Adolygiad o amcanion drafft CDLI3 yn erbyn Canlyniadau Cymru'r Dyfodol 2040

| **Cymru lle mae pobl yn byw** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **.. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach** | **.. mewn lleoedd gwledig ffyniannus gyda mynediad at gartrefi, swyddi a gwasanaethau** | **.. mewn rhanbarthau unigryw sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol trwy dwf cynaliadwy** | **.. mewn lleoedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | **.. a gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ffocws ac yn sbardun ar gyfer twf cynaliadwy** | **.. mewn lleoedd lle mae ffyniant, arloesedd a diwylliant yn cael eu hannog** | **.. mewn lleoedd lle mae teithio'n gynaliadwy** | **.. mewn lleoedd sydd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf** | **.. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd** | **.. mewn lleoedd gydag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig** | **.. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n wydn rhag yr hinsawdd** |
| **Amcan** | | | | | | | | | | | |
| 1 | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| 2 | ● | | ● | | | | | | ● | ● | ● |
| 3 | ● | | | ● | ● | | | | ● | ● | ● |
| 4 | ● | ● | ● | | ● | | ● | | | ● | ● |
| 5 | ● | ● | ● | | | | ● | | | | ● |
| 6 | ● | ● | ● | ● | | ● | | | | | |
| 7 | ● | ● | ● | ● | | ● | | | | | |
| 8 | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | ● | ● |
| 9 | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | | |
| 10 | ● | ● | ● | | ● | | ● | ● | ● | ● | ● |
| 11 | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| 12 | ● | ● | ● | | ● | ● | ● | ● | | | |
| 13 | ● | | | | ● | | | | ● | ● | ● |
| 14 | | | | | | | ● | | ● | ● | ● |
| 15 | ● | | ● | | ● | | ● | ● | ● | ● | ● |
| 16 | | | ● | | | | | | ● | ● | ● |

## **Atodiad 4:** Adolygiad o amcanion drafft CDLl3 yn erbyn y Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy ym Mholisi Cynllunio Cymru

| | **Creu a Chynnal Cymunedau** | **Tyfu Ein Heconomi mewn Ffordd Gynaliadwy** | **Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau** | **Diogelu'r Amgylchedd Hyd yr Eithaf a Chyfyngu ar Effaith Amgylcheddol** | **Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan** | | | | | |
| 1 | • | • | • | • | • |
| 2 | • | • | • | • | • |
| 3 | • | | • | • | • |
| 4 | • | • | • | • | • |
| 5 | • | • | | • | • |
| 6 | • | | | • | |
| 7 | • | | | • | • |
| 8 | • | • | • | • | • |
| 9 | • | • | | | • |
| 10 | • | • | • | • | • |
| 11 | • | • | | • | • |
| 12 | • | • | | • | • |
| 13 | | | • | • | • |
| 14 | • | | • | • | • |
| 15 | | • | • | • | • |
| 16 | | • | • | • | |

## **Atodiad 5:** Adolygiad o amcanion drafft CDLl3 yn erbyn Amcanion Cynllun Llesiant Sir Benfro

| | **Cefnogi twf, swyddi a ffyniant a galluogi'r trawsnewidiad i economi fwy cynaliadwy a gwyrdd** | **Gweithio gyda'n cymunedau i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant** | **Hyrwyddo a chefnogi mentrau i gyflawni datgarboneiddio, rheoli camau addasu i'r hinsawdd a mynd i'r afael â'r argyfwng natur** | **Galluogi cymunedau diogel, cysylltiedig, dyfeisgar ac amrywiol** |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan** | | | | |
| 1 | ● | ● | ● | ● |
| 2 | | ● | ● | ● |
| 3 | | ● | ● | ● |
| 4 | ● | ● | ● | ● |
| 5 | ● | ● | ● | ● |
| 6 | | ● | | ● |
| 7 | | ● | | ● |
| 8 | ● | ● | ● | ● |
| 9 | ● | ● | | ● |
| 10 | ● | | ● | |
| 11 | ● | ● | ● | ● |
| 12 | ● | | | ● |
| 13 | ● | | ● | |
| 14 | | | ● | ● |
| 15 | ● | | ● | |
| 16 | ● | | ● | |

## **Atodiad 6:** Adolygiad o amcanion drafft CDLI3 yn erbyn Datganiad Ardal De-orllewin Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

| Amcan | Lleihau anghydraddoldebau iechyd | Sicrhau y rheolir tir yn gynaliadwy | Gwrthdroi dirywiad a gwella bioamrywiaeth | Lliniaru ac addasu i newid hinsawdd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | • | • | • | • |
| 2 | • | • | • | • |
| 3 | • | • | • | • |
| 4 | • | | | • |
| 5 | • | | | |
| 6 | | | | |
| 7 | • | | | |
| 8 | • | • | • | • |
| 9 | • | • | | |
| 10 | • | • | • | • |
| 11 | • | | | |
| 12 | | | | • |
| 13 | • | • | • | • |
| 14 | • | • | • | • |
| 15 | • | • | • | • |
| 16 | • | • | • | • |